Templed Cylchlythyr Fêps

Llinell bwnc: Helpwch i atal tanau ac ailgylchu'ch fêps yn ddiogel

Cyn bennawd: Peidiwch byth â taflu fêps neu offer trydanol yn y bin. Ailgylchwch nhw.

Annwyl [enw],

Mae angen eich help arnom i gadw ein cymuned yn ddiogel trwy ailgylchu fêps ac offer trydanol yn gywir.

Pan fydd eitemau trydanol gyda batris cudd, fel fêps a pods, yn cael eu taflu i mewn i finiau gallant achosi tanau peryglus. Os cânt eu malu mewn lorïau sbwriel neu ganolfannau ailgylchu, gall y batris gynnau tânau mewn gwastraff cyfagos.

Bob wythnos, **mae 6.3 miliwn o fêps a podiau yn cael eu taflu** yn hytrach na chael eu hailgylchu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, **cafodd dros 1,200 o danau** ledled y DU eu hachosi gan fatris.

Trwy gymryd cam ychwanegol syml, gallwch helpu i atal tanau batri peryglus a achosir gan eitemau trydanol wedi'u taflu'n amhriodol a sicrhau bod deunyddiau gwerthfawr yn cael eu cadw rhag mynd i wastraff.

Yr ateb syml: ailgylchwch nhw ar wahân bob amser

Gellir a dylid ailgylchu pob fêps , gan gynnwys modelau ailwefru, podiau, ac unrhyw beth sydd â phlwg, batri neu gebl.

Dewch o hyd i'ch pwyntiau ailgylchu fêps lleol

Mae ailgylchu eich fêps yn aml mor hawdd â phrynu un newydd. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob siop sy'n gwerthu fêps gymryd hen rai yn ôl i'w hailgylchu.

[Rhowch fanylion penodol ar gyfer pwyntiau casglu fêps sydd ar gael yn eich ardal chi. E.e., 'Mae mannau gollwng ar gael ym mhob archfarchnad fawr a'n canolfannau ailgylchu lleol yn \[Lleoliad 1\] a \[Lleoliad 2\].' \]

Gallwch hefyd ddefnyddio **offeryn lleoli Recycle Your Electricals i** ddod o hyd i'ch man gollwng agosaf:

https://www.recycleyourelectricals.org.uk/

Mae pob fêp wedi'i ailgylchu yn helpu i atal tanau batri ac yn arbed deunyddiau gwerthfawr rhag mynd i wastraff. Diolch am wneud eich rhan.